Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Feithrin Rhydaman/ Ammanford Nursery School

Stryd Fawr
Rhydaman
Sir Gaerfyrddin
SA18 2NS

Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

# Ynglŷn ag Ysgol Feithrin Rhydaman/ Ammanford Nursery School

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Feithrin Rhydaman/ Ammanford Nursery School |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 81 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 78 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 21.7%) | |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 9.2%) | |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 02/09/2024 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 24/11/2025 |

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Yn Ysgol Feithrin Rhydaman, mae disgyblion yn hapus wrth eu chwarae a’u dysgu. Maent yn frwdfrydig wrth archwilio pob math o brofiadau cyfoethog y tu fewn a’r tu allan i’r dosbarth, sy’n eu cymell i ymgolli a chyd-ddysgu gyda’u ffrindiau yn dda. Mae’r disgyblion yn falch o fod yn aelod unigryw o’r ddarpariaeth gynhwysol, ac maent yn mwynhau gwella eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth o wahanol themâu.

Mae gan staff berthynas weithio ofalgar â disgyblion ac maent yn adnabod eu hanghenion lles a dysgu yn dda. Trwy hyn, mae disgyblion yn teimlo’n ddiogel ac yn dangos parch a charedigrwydd tuag at ei gilydd ac oedolion. Mae staff yn galluogi disgyblion i feithrin ymdeimlad cryf o berthyn ac at eu gwerthfawrogiad o’r ysgol, y gymuned leol, Cymru a’r byd ehangach.

Mae’r tîm o staff ymroddgar yn cydweithio’n fedrus wrth gynllunio cwricwlwm sy’n cyfateb i ddiddordebau ac anghenion dysgu’r disgyblion. Mae disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ddweud beth fyddent yn hoffi ei ddysgu o fewn yr amgylchedd ysgogol. O ganlyniad, mae staff yn addasu’r gweithgareddau yn grefftus er mwyn ennyn a chynnal dysgu’r disgyblion. Mae staff yn cyflwyno ystod effeithiol o weithgareddau sy’n cefnogi’r rhan fwyaf o ddisgyblion i wneud cynnydd cyson dros amser. Yn gyffredinol, nid yw’r prosesau gwerthuso bob tro’n cyflwyno gwybodaeth ehangach am ddysgu a chynnydd disgyblion.

Mae gan athrawon a’r cynorthwywyr dysgu ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion. Maent yn cymell disgyblion i herio eu hunain ac i ddatblygu’n ddysgwyr mentrus a chreadigol. Mae cyfleoedd ymarferol, fel yn ‘Caffi Plwmp’, yn meithrin annibyniaeth disgyblion yn dda ac yn datblygu eu medrau cymdeithasol a chyfathrebu yn effeithiol.

Mae’r pennaeth dros dro yn darparu arweinyddiaeth ysbrydoledig sy’n hyrwyddo gwelliant parhaus. Trwy brosesau hunanwerthuso effeithiol, mae arweinwyr yn adnabod beth mae’r ysgol yn ei wneud yn dda a beth sydd angen ei wella, yn effeithiol. Mae llywodraethwyr a rhieni yn gefnogol iawn i’r ysgol, sy’n cyfrannu’n fuddiol at les a datblygiad disgyblion.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella

A1 Datblygu prosesau gwerthuso dysgu a chynnydd disgyblion ymhellach

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae’r disgyblion yn mwynhau chwarae a dysgu yn amgylchedd ysgogol yr ysgol sy’n rhan annatod o’r gymuned ddysgu gynhwysol. Mae gan y rhan fwyaf agweddau cadarn at eu dysgu wrth iddynt archwilio’n frwdfrydig mewn amrywiaeth gyfoethog o brofiadau. Un o rinweddau amlycaf yr ysgol yw’r modd mae’r disgyblion yn rhyngweithio’n gwbl naturiol â’u cyfoedion a staff gan fagu hyder i ymgolli’n llwyr yn eu dysgu. Trwy hyn, o’u mannau cychwyn amrywiol, mae’r rhan fwyaf, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a’r rhai o aelwydydd incwm isel, yn gwneud cynnydd cyson yn datblygu eu medrau. Mae hyn yn darparu sylfaen gadarn iddynt barhau i ddatblygu ar hyd eu taith ddysgu.

Mae gan staff berthnasoedd gwaith hynod effeithiol â'r disgyblion. Maent yn adnabod anghenion emosiynol a dysgu pob disgybl yn unigol sy’n cymell ymddiriedaeth fel sail gadarn i’r addysgu a’r dysgu. Mae’r ddarpariaeth sy’n cael ei threfnu’n ofalus gan staff i gefnogi lles pob disgybl yn effeithiol, gyda hyn yn hyrwyddo ymddygiad da ac ymlyniad cyson disgyblion at eu dysgu. O ganlyniad i ofal tyner staff i bob disgybl, maent yn hapus i ddysgu ac yn dangos parch, caredigrwydd a gwerthfawrogiad o’i gilydd ac eraill.

Mae’r tîm o staff ymroddgar yn datblygu a chyflwyno cwricwlwm sy’n blaenoriaethu diddordebau a chymhelliant dysgu’r disgyblion yn effeithiol. Darperir cyfleoedd buddiol i ddisgyblion gyfrannu syniadau am eu dysgu wrth i staff gynllunio’r profiadau dysgu perthnasol ar eu cyfer ac addasu’r gweithgareddau i ymateb i’w diddordebau a’u dysgu. Mae ymwybyddiaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion o ‘berthyn’ yn gadarn ac maent yn datblygu eu dealltwriaeth o werthfawrogi’r ysgol a’u cartref, yr ardal leol, Cymru a’r byd ehangach yn effeithiol.

Mae staff yn trefnu’r ardaloedd dysgu ac yn rheoli’r disgyblion o fewn yr amgylchedd dysgu ysgogol yn llwyddiannus. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion ac yn eu hannog i herio eu hunain heb ofn methu, ac i gymryd risg fel rhan annatod o’r broses ddysgu. Mae hyn yn cyfrannu’n fuddiol at ddwysáu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o wahanol brofiadau ar draws y cwricwlwm. Trwy hyn, wrth i staff ddarparu cyfleoedd dysgu digymell yn y ddarpariaeth y tu fewn a’r tu allan, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n fedrus fel dysgwyr uchelgeisiol, mentrus ac annibynnol.

Mae athrawon a’r cynorthwywyr dysgu yn fodelau iaith medrus ac yn cyfathrebu â disgyblion yn y Gymraeg a’r Saesneg yn gwbl naturiol. Mae’r sesiynau byrion a chyson, sy’n cael eu cyflwyno gan staff ar gyflymder sy’n addas i’r dysgu, yn cefnogi disgyblion i ailymweld â geirfa, patrymau iaith a chysyniadau yn fedrus er mwyn atgyfnerthu’r dysgu yn ddi-dor.

Mae staff yn cynllunio cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion ddatblygu eu medrau gwrando a siarad, sydd, yn ei dro, yn cefnogi datblygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn y ddwy ffrwd, wrth iddynt gaffael y Gymraeg a'r Saesneg yn fedrus dros amser. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau gwrando ar storïau ac ymgolli mewn llyfrau, ac yn dechrau creu marciau fel rhan o'u datblygiad cyfathrebu. Trwy amrywiol brofiadau gwerthfawr, maent yn datblygu gwydnwch i ffurfio siapiau sy'n arwain at lythrennau a geiriau syml dros amser.

Trwy ddefnydd perthnasol o'r ardaloedd dysgu gwerthfawr, mae medrau creadigol a chorfforol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n llwyddiannus, fel wrth ddylunio a chymryd rhan mewn ras rhwystrau ar y buarth. Yn ogystal, mae'r gweithgareddau bwriadus hyn yn cefnogi'r rhan fwyaf i ddatrys problemau ac i feddwl yn greadigol yn effeithiol, er enghraifft mewn gweithgareddau mathemateg a digidol.

Un o rinweddau nodedig y ddarpariaeth yw'r modd mae disgyblion yn cael dewis yr amser maent yn cael eu byrbryd a llaeth yn y 'Caffi Plwmp' yn annibynnol. Mae hyn yn meithrin dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd yfed a byw'n iach ynghyd â datblygu eu medrau cyfathrebu a chymdeithasol yn llwyddiannus. Mae dealltwriaeth disgyblion o agweddau moesol ac ysbrydol yn datblygu'n gadarn trwy amrywiaeth o weithgareddau buddiol.

Mae athrawon a'r cynorthwywyr dysgu yn holi'r disgyblion wrth eu dysgu yn fedrus. Mae'r gefnogaeth gynhwysol a'r ymyrryd amserol yn nysgu'r disgyblion yn gryfder sy'n galluogi'r disgyblion i barhau i wneud cynnydd yn llwyddiannus. Mae staff yn arsylwi a gwerthuso cynnydd yng ngwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion mewn gwahanol gyd-destunau yn fuddiol. Trwy brosesau perthnasol, mae'r gwerthusiadau hyn yn arwain at ddeialog broffesiynol ymysg staff fel cyfrwng i gynllunio profiadau dysgu dilynol. Er hyn, nid yw'r prosesau wrth werthuso dysgu'r disgyblion bob tro'n cyfleu gwybodaeth ehangach am eu cynnydd.

Mae'r pennaeth dros dro yn arwain yr ysgol yn ysbrydoledig a doeth sy'n cyfrannu'n werthfawr at gefnogi'r staff i gydweithio'n gyson er lles a dysgu'r disgyblion. Trwy weithredu ei gweledigaeth yn strategol i wella'r ddarpariaeth yn barhaus, mae'r pennaeth dros dro yn darparu cefnogaeth gyson i'r athrawon a'r cynorthwywyr dysgu i ymgymryd â dysgu proffesiynol buddiol. Mae hyn, yn ei dro, yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu'r ddarpariaeth ymhellach er mwyn parhau i gyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion a'u cefnogi i wneud cynnydd yn eu medrau.

Mae arweinwyr yn adnabod yr ysgol yn dda, a thrwy brosesau hunanwerthuso buddiol, maent yn adnabod cryfderau'r ysgol ac yn blaenoriaethu a gweithredu'r meysydd i'w gwella yn effeithiol. Mae llywodraethwyr yn gefnogol i waith yr ysgol ac maent yn adnabod y gymuned y mae'n ei gwasanaethu yn dda. At ei gilydd, maent yn cyfrannu'n briodol at y prosesau gwerthuso gan gefnogi a herio'r pennaeth dros dro yn fuddiol er mwyn datblygu

gwahanol agweddau o’r ysgol, fel gwella presenoldeb disgyblion. O ganlyniad i’r arweinyddiaeth gadarn ar bob lefel, mae’r ysgol yn gymuned hapus, ofalgar a byrlymus sy’n meithrin lles ac yn diwallu anghenion a dyheadau disgyblion a staff yn llawn.

Mae rhieni yn gwerthfawrogi’r profiadau dysgu amrywiol mae eu plant yn eu cael fel rhan o ddarpariaeth ysgogol. Maent yn falch o allu cyfrannu at ddatblygiad addysg eu plant er mwyn atgyfnerthu eu profiadau dysgu ymhellach. Mae’r rhieni yn hyderus eu bod yn gallu cysylltu â staff i drafod anghenion lles ac addysg eu plant, fel bo’n briodol. Mae’r rheini yn derbyn gwybodaeth gyson am yr hyn mae eu plant yn ei ddysgu ac am y cynnydd maent yn ei wneud dros amser. Trwy gyfathrebu a chydweithio gwerthfawr rhwng arweinwyr, staff a rhieni, mae mae’r ysgol yn llwyddo i wireddu’r weledigaeth a ddisgrifir yn ei harwyddair, sef: ‘Gofalu am eich plentyn. Rhannu yn eu dyfodol’.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion y blynyddoedd cynnar.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 29/01/2026